I - Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Justice System Impact Identification

Form

**I Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder**

**Trosolwg**

**Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r ffurflen hon**

- ~~**Er gwybodaeth a thrafod y goblygiadau**~~
- **I’w hasesu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

(Dilëwch y datganiad nad yw’n berthnasol)

**Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau'r ddeddfwriaeth hon ar y system gyfiawnder yw bod ganddi**

- ~~**Dim effaith neu effaith bosibl ddibwys** (yn yr achos hwn cwblhewch y ffurflen NESG hyd at a chan gynnwys cwestiwn 4.5 yn unig)~~
- **Effaith bosibl Isel**
- ~~**Effaith bosibl Canolig neu Uchel**~~

(Dilëwch y rhai nad ydynt yn berthnasol)

**Mae hyn oherwydd:**

| |
|---|
| Mae’r Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) (“y Bil”) yn rhan o becyn o fecanweithiau sy’n cyd-fynd â’r rhaglen waith diogelwch tomenni glo, a ddatblygwyd yn 2020 i gyflawni amcanion Tasglu’r Prif Weinidog ar ddiogelwch tomenni glo. Sbardunwyd y rhaglen gan dirlithriad sylweddol ar domen lo nas defnyddir yn Nhylorstown, De Cymru. Daeth adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru i’r casgliad nad yw’r ddeddfwriaeth bresennol sy’n ymwneud â thomenni glo (Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (“Deddf 1969”)) yn mynd i’r afael yn effeithiol â rheoli tomenni glo nas defnyddir. Mae'r Bil yn gweithredu nifer o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac yn ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru) ("y Papur Gwyn"). <br><br> Mae'r Bil yn darparu ar gyfer system newydd o reoleiddio ar gyfer tomenni sborion nas defnyddir (“tomenni nas defnyddir”), gan gyflwyno dull cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir. Mae'r Bil hwn yn rhan o raglen ehangach o waith sy'n ymwneud â diogelwch tomenni nas defnyddir yng Nghymru. |

I grynhoi, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu awdurdod goruchwylio newydd ("yr Awdurdod"), Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, i oruchwylio'r gyfundrefn newydd, a rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyfundrefn newydd. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio, cydymffurfio a chynghori wrth oruchwylio cyfundrefn reoli tomenni newydd. Cynigir cyfundrefn orfodi newydd i sicrhau ac annog cydymffurfio â'r gyfundrefn newydd. Mae hyn yn cynnwys:

- pwerau gorfodi sifil, gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau, a chael mynediad at domenni nas defnyddir a'u harchwilio;
- pwerau gorfodi ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir; a
- phwerau gorfodi troseddol.

Asesir mai isel yw effaith y Bil ar y system gyfiawnder. Mae llawer o'r troseddau, yr hawliau apelio, darpariaeth ar gyfer ceisiadau i'r Llys ac ati yn seiliedig ar y darpariaethau presennol yn Rhan 2 o Ddeddf 1969. Bydd y Bil yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly, ni fydd Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â thomenni nas defnyddir sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae nifer fach iawn o domenni nas defnyddir sydd y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar gyfer y tomenni hyn, bydd Deddf 1969 a'r Bil ill dau yn gymwys. Bydd awdurdodau lleol Lloegr yn arfer pwerau o dan Ddeddf 1969 a bydd yr Awdurdod yn arfer pwerau a roddir iddo gan y Bil. Bydd pwerau o dan y cyfundrefnau priodol yn arferadwy mewn perthynas â'r domen nas defnyddir drawsffiniol gyfan (nid dim ond y rhan o'r domen sy'n dod o fewn yr awdurdodaethau daearyddol priodol).

Y rheswm mai isel yw'r effaith yr ydym yn ei hasesu yn hytrach na "dim effaith" neu "ddibwys" yw oherwydd bod gan y Bil drothwy is ar gyfer gweithredu mewn perthynas â sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir nag sydd gan Ddeddf 1969 ac mae'r pwerau yn y Bil yn gymwys i bob tir, nid dim ond tomenni nas defnyddir a thir cyfagos lle mae gan berchennog y domen nas defnyddir fuddiant. Mae gan yr Awdurdod y swyddogaeth o ddarparu cyngor a chymorth i bobl mewn cysylltiad â thomenni nas defnyddir a rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda pherchnogion tir i sicrhau rheoli tomenni nas defnyddir yn ddiogel heb, yn y mwyafrif helaeth o achosion, yr angen i ddefnyddio'r darpariaethau hysbysu ac ati sydd yn y Bil.

## 1. Gwybodaeth gyffredinol

1.1. Darparwch a) fanylion cyswllt eich swyddog arweiniol ar gyfer gwerthuso'r costau neu'r arbedion a;

b) yr arweinydd Polisi Cyfiawnder os yw'n hysbys.

| |
|---|
| |

1.2. A ydych wedi hysbysu'r swydd farnwrol am eich cynigion drwy gwblhau Cyfarwyddiad Desg 7? (ceisiwch gyngor gan eich cynghorwyr cyfreithiol)

☐ Do

x☐ Naddo (esboniwch pam)

| |
|---|
| Mae ein cydweithwyr Gwasanaethau Cyfreithiol wrthi'n paratoi'r hysbysiad gofynnol a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. |

1.3. Yn fras, beth yw eich cynnig? (dim mwy na hanner tudalen) (*Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i helpu swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddeall bwriad y newid arfaethedig er mwyn gallu rhoi sylwadau llawn ar yr effeithiau posibl*).

Darperir ar gyfer y gyfundrefn tomenni nas defnyddir bresennol yn Rhan 2 o Ddeddf 1969. Mae'n nodi'r pwrpas y mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau ar ei gyfer o dan y Ddeddf: sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir, oherwydd ansefydlogrwydd, yn peri perygl i aelodau o'r cyhoedd. Bydd y Bil yn datgymhwyso Deddf 1969 i bob tomen nas defnyddir sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru. Fel y nodir uchod, ar gyfer y nifer fach iawn o domenni nas defnyddir sydd y naill ochr a'r llall i ffin Cymru/Lloegr, bydd Deddf 1969 a'r darpariaethau yn y Bil ill dau yn gymwys.

Bwriad y polisi wrth greu deddfwriaeth newydd, fel y disgrifir yn y Papur Gwyn[1], fu ehangu cwmpas y gyfundrefn reoleiddio fel ei bod yn diogelu lles dynol trwy greu cyfundrefn reoli gymesur sy'n seiliedig ar risg i leihau'r bygythiadau a berir gan domenni nas defnyddir. Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein nodau i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gyfundrefn bresennol ar gyfer tomenni nas defnyddir, fel y darperir yn Neddf 1969. Nododd y papur gynigion deddfwriaethol ar gyfer cyflwyno fframwaith rheoli statudol newydd i gefnogi diogelwch tomenni a helpu i liniaru effeithiau posibl newid hinsawdd.

I grynhoi, mae'r Bil yn:

(a) sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio'r gyfundrefn. Ei brif amcan wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.
(b) gwneud darpariaeth ar gyfer asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir.

[1] https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-ddiogelwch-tomenni-glo-cymru

(c) cynnwys darpariaethau sy’n galluogi’r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir i ddelio ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni. Mae hyn yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ac i'r Awdurdod ymgymryd â gweithrediadau ei hun, a darpariaethau cysylltiedig mewn perthynas â thaliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath.

(d) caniatáu i'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir ddarparu cyngor ac arweiniad ar y camau gweithredu a argymhellir i gynnal sefydlogrwydd tomenni a diogelu lles dynol.

(e) cynnwys darpariaethau atodol gan gynnwys pwerau mynediad i’r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir, darpariaethau rhannu gwybodaeth a phwerau i ofyn am wybodaeth.

(f) creu troseddau cysylltiedig i gefnogi gorfodi’r gyfundrefn.

(g) gwneud darpariaeth i ddatblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir.

Mae dyluniad y gyfundrefn newydd yn system weithredadwy sy’n cydymffurfio â hawliau dynol, lle mae Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru nid yn unig yn chwarae rôl ymgynghorol i annog perchnogion tomenni i gyflawni eu cyfrifoldebau ond hefyd yn gallu defnyddio ei bwerau i gamu i’r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny.

I roi syniad o’r maint, mae tua 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Mae’r tabl isod yn dangos lefel eu categoreiddio. Mae Categori 1 yn cynrychioli tomenni nas defnyddir sydd â’r lefel uchaf o fygythiad posibl – yn fwy tebygol o angen cymryd camau gweithredu o dan y gyfundrefn. Mae Categori 4 yn cynrychioli tomenni nas defnyddir sydd â’r lefel isaf o fygythiad posibl – mae’n annhebygol y bydd angen cymryd camau gweithredu.

**Tomenni Glo Nas Defnyddir**

| Categori | Nifer |
|---|---|
| 1 | 83 |
| 2 | 267 |
| 3 | 706 |
| 4 | 1209 |

Amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir yng Nghymru.

Mae'r tabl yn crynhoi ein rhagdybiaethau mewn perthynas ag asesu a chategoreiddio tomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir:

| | Tomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir |
|---|---|
| Amcangyfrif o domenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir | 20,000+ |
| Asesiadau rhagarweiniol a gynhaliwyd ar *x* o domenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir hyd at 2039-40 | 4,000 |
| | |
| O'r rhain, y nifer a ychwanegwyd at y gyfundrefn | 480 |
| O'r rhain, sy'n Gategori 1 | 14 |
| Categori 2 | 58 |
| Categori 3 | 154 |
| Categori 4 | 254 |

1.4. Nodwch bryd y byddwch yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth hon a'r camau gorfodi sy'n deillio ohono.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto. Bydd ystyriaeth bellach o unrhyw angen posibl am adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth hon yn digwydd maes o law yng nghyd-destun ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Gweinidogol eraill.

1.5. A yw'r cynnig deddfwriaethol hwn yn debyg mewn unrhyw ffordd i ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno yn Lloegr? Os ydyw, nodwch deitl y ddeddfwriaeth honno a nodwch isod unrhyw ffyrdd y bydd y ddeddfwriaeth i'w chyflwyno yng Nghymru yn wahanol.

Os nad oes gan y ddeddfwriaeth unrhyw wahaniaeth o sylwedd i honno yn Lloegr, mae'n bosibl na fydd angen cwblhau pob rhan o'r ffurflen NESG.

Bydd Deddf 1969 yn parhau mewn grym i Loegr.

1.6. Nodwch deitl unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig arall. Sut ydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu rhoi ar waith?

Gweler uchod

1.7. Nodwch erbyn pa ddyddiad y byddwch yn disgwyl a) i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym, b) y dyddiad y bydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

a) Bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2024; rydym yn rhagweld y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2025. Nid yw'r dyddiadau hyn yn y parth cyhoeddus.

b) Y dyddiad y rhagwelir gweithredu'r gyfundrefn newydd yw 1 Ebrill 2027. Bydd yn cymryd cyfnod i'r Awdurdod fod yn gwbl weithredol. Nid yw dyddiad yr effaith gyntaf ar y System gyfiawnder yn hysbys gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys cydymffurfio â'r hysbysiadau ac ati y bydd gan yr Awdurdod newydd y pŵer i'w cyhoeddi, ond ni fydd cyn bod y gyfundrefn a sefydlir o dan y Bil yn weithredol.

1.8. Os ydych yn diwygio neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba rai o'r grwpiau canlynol fydd y cynnig yn effeithio, ac ym mha amgylchiadau y bydd hynny'n digwydd? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☒ Unigolion
☒ Sefydliadau Preifat (e.e. Busnesau)
☐ Sefydliadau Cyhoeddus (e.e. Adrannau'r Llywodraeth)

Y bobl y bydd y darpariaethau hyn yn effeithio arnynt yn bennaf fydd perchnogion a meddianwyr tir lle mae tomenni nas defnyddir wedi'u lleoli. Fodd bynnag, gall sawl trosedd yn y Bil effeithio ar unrhyw berson.

Mae'r Bil yn cynnwys troseddau mewn perthynas â:

- Rhwystro neu ymyrryd yn fwriadol â'r Awdurdod wrth iddo gynnal archwiliadau neu weithgarwch monitro ar domenni nas defnyddir.
- Perchennog tir sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â gwaith ar y tir sydd ei angen i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag troi'n ansefydlog er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol;
- Rhwystro neu ymyrryd yn fwriadol ag ymchwiliad i weld a oes angen gweithrediadau ar dir neu'r gwaith o ymgymryd â gweithrediadau.
- Difrodi, neu ymyrryd fel arall, yn fwriadol â gwaith a gwblhawyd yn unol â gweithrediadau sy'n ofynnol o dan y Bil;
- Methu â rhoi gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr Awdurdod neu ddarparu gwybodaeth berthnasol sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid;
- Rhwystro'n fwriadol person sy'n arfer pŵer mynediad o dan y Bil

1.9. A yw eich deddfwriaeth yn effeithio ar Gymru yn unig neu ydych chi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill? Ticiwch bob un sy'n berthnasol a darparwch fanylion bras fel sy'n briodol, gan gynnwys a fydd eich cynnig yn creu cyfreithiau gwahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.

Nodwch, ac eithrio'r tribiwnlysoedd datganoledig, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweinyddu'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn unig. Siaradwch yn uniongyrchol ag uned ddatganoli'r Weinyddiaeth Gyfiawnder os ydych yn rhagweld y gallai eich cynnig effeithio ar y llysoedd neu'r carchardai yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

☒ Cymru yn unig
☐ Lloegr
☐ Yr Alban
☐ Gogledd Iwerddon
☐ Eraill (Nodwch)

Nod trosfwaol y Bil hwn yw creu system reoleiddio ar gyfer tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Dylai cwmpas arfaethedig y gyfundrefn ddeddfwriaethol newydd

- fod yn gymwys i bob math o domen sborion, beth bynnag eu cyfansoddiad.
- bod yn gymwys i domenni nas defnyddir yn unig, ac nid tomenni gweithredol; a
- bod yn gymwys i domenni sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

Dylid nodi bod nifer fach iawn o domenni nas defnyddir trawsffiniol sydd y naill ochr a'r llall i ffin Cymru/Lloegr. Bydd y Bil yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly, ni fydd Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â thomenni nas defnyddir sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae nifer fach iawn o domenni nas defnyddir sydd y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar gyfer y tomenni hyn, bydd Deddf 1969 a'r Bil ill dau yn gymwys. Bydd awdurdodau lleol Lloegr yn arfer pwerau o dan Ddeddf 1969 a bydd yr Awdurdod yn arfer pwerau a roddir iddo gan y Bil. Bydd pwerau o dan y cyfundrefnau priodol yn arferadwy mewn perthynas â'r domen nas defnyddir drawsffiniol gyfan (nid dim ond y rhan o'r domen sy'n dod o fewn yr awdurdodaethau daearyddol priodol).

1.10. Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n ymweld â Chymru neu eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;-

a) pa drefniadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn codi ymwybyddiaeth yn barhaus o'r ddeddfwriaeth wahanol mewn cysylltiad â'r mater hwn yng Nghymru?

b) beth fydd goblygiadau gweithredu yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru ar yr asiantaethau gorfodi?

Gallai ein cynigion effeithio ar unigolyn nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru os ydynt yn berchen ar dir y mae'r Bil yn effeithio arno neu os oes ganddynt fuddiant ynddo. Ni fyddant yn effeithio ar ymwelwyr â Chymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar y Papur Gwyn a oedd yn cynnwys cynigion y Bil. Paratowyd a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru ar 9 Tachwedd 2022.

Rydym wedi cyfathrebu'n uniongyrchol â pherchnogion a meddianwyr tomenni glo nas defnyddir yn ystod ymarfer postio uniongyrchol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023. Cysylltwyd â phob perchennog a meddiannydd tir sydd â thomen lo nas defnyddir categori C neu D o fewn ffin eu heiddo (sef y tomenni risg uwch).

Rhyddhawyd y data ar y tomenni categori C a D i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2023, a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r data yn cadarnhau lleoliad a ffiniau'r tomenni glo nas defnyddir.

Rhyddhawyd y data ar y tomenni glo nas defnyddir A, B ac R (h.y. tomenni risg is) ym mis Mawrth 2024, ac eto ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ionawr 2024, cynhaliom 3 digwyddiad ar-lein ymwybyddiaeth y cyhoedd, a 6 sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb yn yr ardaloedd hynny y mae'r tomenni nas defnyddir yn effeithio arnynt cyn cyhoeddi'r data yn ymwneud â'r tomenni nas defnyddir.

Mae cynllun cyfathrebu sy'n ategu'r Bil yn amlinellu'r gwahanol ddulliau o sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'i goblygiadau iddynt.

Ni ystyrir bod unrhyw oblygiadau andwyol ar gyfer asiantaethau gorfodi o ran dwyn camau yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru.

1.11. Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

Ystyriwch:-

**Opsiwn 1**

Gwneud Dim Byd - Nid yw peidio â deddfu yn opsiwn. Mae tirlithriad Tylorstown yn 2020 wedi dangos inni'r hyn all ddigwydd os nad yw tomenni nas defnyddir yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol, ac roedd adolygiad Comisiwn y Gyfraith yn glir bod angen newid deddfwriaethol (gweler isod). Byddai gwneud dim byd ddim yn cael unrhyw effaith ar y System Gyfiawnder.

**Opsiwn 2**

Deddfu - Mae deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru yn hanfodol. Gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol yn Neddf 1969. Mae eu hadroddiad yn tynnu sylw at fylchau sylweddol yn y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir. Cynigiodd fframwaith rheoleiddio newydd i hyrwyddo cysondeb wrth reoli tomenni glo nas defnyddir ledled y wlad ac osgoi perygl trwy fabwysiadu dull rhagweithiol.

Mae'r cynigion yn y Bil yn rhoi mewn grym llawer o argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan gynnwys sefydlu Awdurdod rheoleiddio newydd. Rhoddir pwerau gorfodi effeithiol a chymesur i'r Awdurdod hwnnw i sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio yn effeithiol. Y bwriad yw y byddai'r rhain yn cynnwys pwerau i gael mynediad i dir i gynnal archwiliadau a gwaith cynnal a chadw brys, sancsiynau troseddol posibl mewn amgylchiadau lle nad yw perchnogion yn cydymffurfio â hysbysiadau tomenni sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ymgymryd â gwaith angenrheidiol. Ni fydd angen rhoi rhybudd i gael mynediad i dir preifat mewn argyfwng.

Fel yr esbonir yn fanylach mewn paragraffau diweddarach, rhagwelir y bydd maint yr effaith yn isel, oherwydd bod y cynigion gorfodi yn y Bil yn bennaf yn adlewyrchu'r hyn sydd yn Rhan 2 o Ddeddf 1969. Bydd Rhan 2 o'r Ddeddf honno 1969 yn cael ei dirymu mewn perthynas â Chymru.

1.12. Os ydych yn creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

| |
|---|
| Amherthnasol - nid oes unrhyw sancsiynau sifil newydd yn cael eu creu yn y Bil |

**Troseddau a Chosbau a Sancsiynau Sifil**

1.13. Pa un o'r canlynol ydych chi'n creu / diwygio? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Sancsiynau Sifil
☐ Cosbau Penodedig
☐ Gorchmynion Sifil
☐ Sancsiynau Troseddol
☒ Troseddau
☐ Eraill (Nodwch)

1.14. Os ydych yn creu trosedd, pa un o'r isod ydyw:

☒ Trosedd Ddiannod yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig)
☒ Trosedd Neillffordd
☐ Trosedd Dditiadwy yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)

Mewn achosion lle mai'r gosb uchaf fydd dirwy ddiderfyn, ac mae cyfiawnhad dros drosedd neillffordd, esboniwch pam nad yw trosedd ddiannod yn unig yn cael ei hystyried yn briodol. Mae hyn yn benodol berthnasol, os rhagwelir na fydd ond ychydig o achosion, os o gwbl.

Mae ein cynnig yn creu 3 trosedd sy'n agored i ddirwy ar euogfarn ddiannod. Y rhain yw:

- Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau [s.32];
- Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad [s.39];
- Cosb am rwystro gweithrediadau [s.54].

Mae ein cynnig hefyd yn creu 2 drosedd sydd ar euogfarn ddiannod yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

- Cosb mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth [s.61(1)] – lle mae person, heb esgus rhesymol, yn methu â rhoi'r wybodaeth honno.
- Cosb am rwystro mynediad i dir [s.66]

Yn olaf, mae ein cynnig yn creu 1 drosedd, sydd ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar ddditiad, yn agored i ddirwy.

Mae'r drosedd hon mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth, lle mae'r person sy'n rhoi gwybodaeth sy'n anwir ac yn gamarweiniol mewn modd perthnasol a naill ai (i) yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir ac yn gamarweiniol, neu'n (ii) ddi-hid ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol. [s.61(3)]

Ni ystyrir bod trosedd ddiannod yn unig yn briodol ar gyfer y drosedd benodol hon oherwydd yr elfen o ddihidrwydd neu wybodaeth sydd ei hangen i'w bodloni. Mae'n fwriadol yn drosedd fwy difrifol na'r drosedd gysylltiedig o fethu heb esgus rhesymol â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan hysbysiad. Yn ogystal, mae cyflawni'r drosedd â'r potensial i achosi oedi i waith angenrheidiol mewn sefyllfa o argyfwng.

Nid ydym yn rhagweld y bydd llawer o achosion (os o gwbl) sy'n ymwneud â'r drosedd hon, oherwydd gallai fod canlyniadau difrifol i unrhyw barti sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Awdurdod. Nodir amcangyfrifon o nifer y troseddau ym mharagraff 4.16 isod.

1.15. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi eich cynnig deddfwriaethol a sut y bydd yn mynd ati i fwrw ymlaen â'r rôl hon? A fydd mwy / llai o angen am gamau gorfodi? Dylech hefyd gynnwys y costau gorfodi a ragwelir a sut y bydd yn cael ei ariannu. (Ystyriwch hefyd yr egwyddorion a amlinellir yn sleidiau'r cyflwyniad Model Cyflawni Rheoleiddiol sydd ar gael ar y tudalennau Cyfiawnder ar y fewnrwyd).

Yr Awdurdod (Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru), corff newydd a fydd yn cael ei sefydlu o dan y Bil, fydd yn gyfrifol am gamau gorfodi. Mae hyn yn newid oherwydd o dan y gyfundrefn bresennol yn Neddf 1969, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gamau gorfodi. Fodd bynnag, fel y nodir mewn paragraffau diweddarach, mae'r troseddau a'r dulliau gorfodi yn y Bil wedi'u modelu'n agos iawn ar y rhai sydd yn Neddf 1969.

Bydd gan yr Awdurdod bwerau ehangach na'r rhai sydd ar gael i awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Bydd ganddo bwerau i gasglu gwybodaeth ac asesu a monitro pob tomen nas defnyddir yng Nghymru. Bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu cefnogi gan hawl mynediad i dir i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau, a chan droseddau lle mae perchnogion yn gwrthod darparu gwybodaeth neu fynediad i dir ymhlith troseddau eraill.

Bydd yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan Weinidogion Cymru i gyflawni ei swyddogaethau - gan gynnwys ei swyddogaethau gorfodi.

1.16. Sawl achos ydych chi'n rhagweld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

Rydym yn rhagweld y bydd y niferoedd yn isel iawn, os bydd unrhyw achosion o gwbl, oherwydd natur y berthynas waith a fydd gan yr Awdurdod gyda'i randdeiliaid a fydd yn lleihau'r angen am geisiadau am warantau i fynd ar dir, am hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â gwaith ar dir, ac am geisiadau ffurfiol am wybodaeth. Mae'r Awdurdod yn cael ei sefydlu i weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid, gan ddarparu cyngor ar gynnal a chadw'r tir ac ati, ac rydym o'r farn y bydd y perthnasoedd da hyn yn galluogi datrys unrhyw faterion rhwng y partïon ac osgoi'r angen am unrhyw achos llys.

Rydym hefyd wedi holi awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn ôl y dystiolaeth anecdotaidd nid oes unrhyw erlyniadau wedi'u dwyn mewn perthynas â throseddau cysylltiedig / tebyg o dan Ddeddf 1969. Rydym wedi cyflwyno cais i GLITEM, yn gofyn am unrhyw ddata perthnasol ar erlyniadau am droseddau tebyg o dan Ddeddf 1969 i lywio ein barn a'n rhagdybiaethau. Nid ydym wedi cael ymateb eto, ond gallwn anfon hwn ymlaen ar ôl ei dderbyn.

<u>Amcangyfrifon o nifer yr achosion (wedi'u mynegi fel amrediad):</u>

- Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau [s.32] – **0 - 5**
- Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad [s.39] - **0 - 5**
- Cosb am rwystro gweithrediadau [s.54] - **0 - 5**
- Cosb mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth [s.61(1)] – lle mae person, heb esgus rhesymol, yn methu â rhoi'r wybodaeth honno. - **0 - 5**
- Cosb am rwystro mynediad i dir [s.66] - **0 - 5**
- Cosb mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth [j1000C(3)] – lle mae person yn fwriadol neu'n ddi-hid yn darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. - **0 - 5**

1.17. Ydych chi'n disgwyl i'r achosion gael gwrandawiad mewn Llys Ynadon, Llys y Goron neu Lys Sifil? Beth fydd y cyfrannau?

Mae'r rhan fwyaf o'r troseddau yn droseddau diannod yn unig, i gael gwrandawiad mewn Llys Ynadon. Mae un drosedd yn drosedd neillffordd ac felly gall gael gwrandawiad mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, fodd bynnag rydym yn rhagweld y byddai'r rhan fwyaf o achosion (os ydynt yn mynd i'r Llys) yn cael gwrandawiad mewn Llys Ynadon.

1.18. Nodwch uchafswm y ddirwy a/neu gosbau o garchar perthnasol. Pan fo troseddau yn cynnwys cosbau o ddirwy neu gyfnod yn y carchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

Nid oes unrhyw un o'r troseddau yn dwyn dedfryd o garchar yn eu sgil.

**S.32 - Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau**

Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**S.39 - Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad**

Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**S.54 - Cosb am rwystro gweithrediadau ac ati**

Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) neu (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**S.61 - Cosb mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth**

Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**S.61 - Cosb mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth**

Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

| S.66 - Cosb am rwystro mynediad i dir |
| --- |
| Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol. |

1.19. Rhowch fanylion unrhyw droseddau a / neu gosbau procsi neu bresennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt. Os ydych yn adlewyrchu neu’n cymharu deddfwriaeth bresennol, sicrhewch gyfeirio at y fersiynau diweddaraf o’r ddeddfwriaeth (trwy Westlaw, y gwasanaeth ymchwil cyfreithiol ar-lein) gan nad yw hyn ar gael bob amser ar-lein. Cyfeiriwch at dudalen 8 o ganllawiau’r NESG ar sut i gael data sy’n ymwneud â nifer yr achosion a ddygwyd ymlaen o dan y ddeddfwriaeth rydych wedi’i nodi.

| **Deddfwriaeth / Adran Arfaethedig** | **Deddfwriaeth Bresennol** Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 | **Trosedd** |
| --- | --- | --- |
| S.61 (2) a (4) | a.12(2) | Troseddau sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth |
| S.66<br><br>S.39(1) | a.13(6) ac a.18(6)<br><br>a.14(8) | Troseddau sy’n ymwneud â rhwystro mynediad i dir<br><br>Trosedd o beidio â chydymffurfio â hysbysiad am waith gofynnol |
| S.32 | a.26(1) | Trosedd o rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau |
| S.54(1) | a.26(1) | Trosedd o rwystro gweithrediadau |
| S.54(2) | a.26(2) | Trosedd o ddifrodi’n fwriadol gwaith a gwblhawyd |

1.20. Rhowch fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol (lle bo hynny'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/making-new-criminal-offences.

| Ystyrir bod creu'r troseddau yn gymesur ac yn angenrheidiol i gyflawni amcanion Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru). |
| --- |

1.21. Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut y mae hyn yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

Bydd yr effaith ar unigolyn y canfyddir ei fod yn euog o unrhyw droseddau o fewn y Bil yn arwain at gofnod troseddol yn seiliedig ar y system bresennol a byddant yn agored i dalu dirwy. O ran yr effaith ar fywyd unigolyn a gaiff euogfarn am drosedd, gall hyn, yn ôl pob tebyg, gael effaith ar obeithion y person hwnnw i gael swydd. Fodd bynnag, fel y nodir isod, byddai'r effaith yn gymharol fyrhoedlog o ystyried y darpariaethau perthnasol yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Bydd Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn gymwys i unigolyn a gaiff euogfarn am drosedd o dan y Bil yn y ffordd arferol. Bydd euogfarn person y canfyddir ei fod yn euog o drosedd ac y cyflwynir dirwy iddynt o dan y Bil yn cael ei disbyddu naill ai ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddyddiad yr euogfarn os ydynt dros 18 oed, neu ar ddiwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddyddiad yr euogfarn os ydynt o dan 18 oed.

1.22. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, darparwch eich asesiad o ba mor debygol ydyw i unigolion neu fusnesau weithredu yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod a Gweinidogion Cymru yn bennaf.

Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol (fel y diffinnir yn y Bil) i roi gwybodaeth i'r Awdurdod.

Mae penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gamau adolygiad barnwrol a gymerwyd yn erbyn awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau cyfatebol o dan Ddeddf 1969. Felly, er bod risg y bydd camau adolygiad barnwrol yn cael eu dwyn yn erbyn yr Awdurdod, mae'r risg yn isel.

Mae'r Bil yn darparu y gall Gweinidogion Cymru eu hunain ddyfarnu ar apelau neu benodi trydydd parti i ddyfarnu. Yn ymarferol, bydd PEDW (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) yn gwrando ar apelau. Mae PEDW yn weision sifil ac felly bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am y dyfarniad. Mae PEDW yn brofiadol iawn wrth ddelio ag apelau (ar hyn o bryd mae'n delio ag apelau cynllunio, trwyddedu morol ac ati). Felly, rhagwelir y bydd nifer y camau adolygiad barnwrol yn isel.

O ran dyletswyddau a osodir ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol i ddarparu gwybodaeth i'r Awdurdod, mae'r posibilrwydd y bydd yr Awdurdod yn dwyn achos yn erbyn awdurdod cyhoeddus o'r fath yn isel iawn. Ni fyddai disgwyl i aelodau o'r cyhoedd gychwyn achos adolygiad barnwrol mewn achosion o'r fath.

## 2. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru

**Amcangyfrif o'r newid i lwyth achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig)**

2.1. A ydych chi'n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Darparwch amcangyfrif o'r

newid i nifer yr achosion fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n galluogi gwneud cais i'r Llys. Mae crynodeb o'r rhain isod. Maent yn seiliedig yn bennaf ar ddarpariaethau presennol yn Neddf 1969 sy'n galluogi gwneud ceisiadau i'r Llys. Mae tablau sy'n cymharu'r darpariaethau cyfatebol wedi'u cynnwys.

Mae arweinwyr polisi wedi cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol a'r Awdurdod Glo ac yn ôl y dystiolaeth anecdotaidd nid oes unrhyw gamau Llys wedi'u cymryd mewn perthynas ag unrhyw un o'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1969. Mae cyflwyno hysbysiadau sy'n gofyn am weithrediadau ac ati a allai gychwyn amgylchiadau a allai sbarduno ceisiadau i'r Llys, wedi'i osgoi trwy weithio gyda pherchenogion tomenni nas defnyddir i gytuno ar waith sydd ei angen i sicrhau sefydlogrwydd parhaus tomenni nas defnyddir. Yn yr un modd, dim ond un achos hysbys a fu lle gwrthodwyd, yn y lle cyntaf, mynediad i dir i awdurdod lleol gynnal archwiliad, yn yr achos hynny roedd bygwth gwneud cais am warant i gael mynediad i'r tir yn ddigon i alluogi mynediad.

Bydd y gyfundrefn reoleiddio i'w sefydlu o dan y Bil yn fwy rhagweithiol (bydd trothwy is i'r Awdurdod gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â gwaith, a bydd y pŵer yn cael ei ehangu i gynnwys tir yn ei gyfanrwydd - nid dim ond tomenni nas defnyddir a thir cyfagos lle mae gan berchennog y domen fuddiant yn y tir). Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau yn yr un modd cydweithredol gyda hysbysiadau ffurfiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â gwaith, ond yn cael eu defnyddio pan fetho popeth arall. Yn ogystal, mae perthnasoedd gwaith cryf - sydd eisoes ar waith gyda pherchnogion tir drwy eu gwaith gydag awdurdodau lleol a'r Awdurdod Glo - yn golygu y bydd yn annhebygol bod angen gwarantau i fynd ar dir.

**O ganlyniad, rydym yn asesu mai isel fydd effaith darpariaethau'r Bil. Ar gyfer pob un o'r ceisiadau i'r Llys posibl a restrir isod, rydym yn amcangyfrif amrediad o rhwng 0-5 cais y flwyddyn.**

Nodir isod tablau sy'n dangos darpariaethau'r Bil a'r darpariaethau cyfatebol o dan Ddeddf 1969:

**Gwarant**
Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i'r Awdurdod wneud cais am warant i fynd ar dir at ddibenion penodedig sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau'r Awdurdod. Mae pwerau cyfatebol i wneud cais am warant o dan Ddeddf 1969.

| Y Bil | Deddf 1969 |
|---|---|
| S.64 – gwarant i fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn s.62(1) – e.e. asesu, monitro, ymgymryd â gwaith ac ati. | a.13 a 18 – gwarant i fynd ar dir i gynnal profion archwiliadol ac ati ac i ymgymryd â gweithrediadau a gwaith adfer |

**Gorchmynion Cyfrannu – ceisiadau**

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i berchennog tir, y cyflwynwyd hysbysiad iddynt yn ei gwneud yn ofynnol ymgymryd â gwaith, wneud cais i'r Llys am Orchymyn Cyfrannu. Bydd Gorchymyn o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i drydydd partïon wneud cyfraniad tuag at

gostau'r gwaith. Mae’r Bil hefyd yn galluogi’r Awdurdod, pan fydd yn ymgymryd â gwaith ei hunan ar dir, wneud cais i’r Llys am Orchymyn Cyfrannu. Mae darpariaethau cyfatebol sy'n galluogi perchnogion ac awdurdodau lleol gwneud cais i'r Llys am Orchmynion Cyfrannu o dan Ddeddf 1969.

| Y Bil | Deddf 1969 |
|---|---|
| S.46 – mae’n darparu y gall (i) yr Awdurdod sydd wedi ymgymryd â gwaith ar dir neu (ii) berchennog tir, y cyflwynwyd hysbysiad iddynt ymgymryd â gwaith, **wneud cais i’r Llys** am orchymyn cyfrannu yn erbyn personau penodedig i gyfrannu at gost y gwaith. | Adran 19 – gall perchennog tir y cyflwynwyd hysbysiad iddynt neu awdurdod lleol sydd wedi ymgymryd â gwaith ar dir **wneud cais i’r Llys** am orchymyn cyfrannu sy’n ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig gyfrannu at gostau’r gwaith. |

### Digolledu am ddifrod neu aflonyddu

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi personau penodedig i hawlio digollediad gan berchennog tir neu'r Awdurdod lle mae tir neu eiddo wedi'i ddifrodi neu le mae aflonyddu ar fwynhad person o dir o ganlyniad i ymgymryd â gweithrediadau ar dir gan y perchennog neu’r Awdurdod.

Mae hawl ychwanegol i bersonau penodedig wneud hawliad am ddigollediad am ddifrod neu aflonyddu yn erbyn yr Awdurdod lle mae tir neu eiddo wedi'i ddifrodi neu le mae aflonyddu ar fwynhad person o dir o ganlyniad i weithgarwch archwilio, monitro neu asesu a wneir gan yr Awdurdod.

Os na all y partïon gytuno ar ddigolledu, y llys fydd yn dyfarnu ar anghydfod.

| Y Bil | Deddf 1969 |
|---|---|
| S.48 - lle mae tir neu eiddo wedi’i ddifrodi, neu mae aflonyddu ar fwynhad unrhyw berson o dir o ganlyniad i archwilio, gweithgarwch monitro arall, asesiadau rhagarweiniol neu lawn, mae gan bersonau penodedig hawl i adennill digollediad gan yr Awdurdod. Mae unrhyw anghydfod ynghylch digolledu **i’w ddyfarnu gan y Llys.** | Adran 20 – lle mae tir wedi’i ddifrodi, neu mae aflonyddu ar fwynhad person o’i dir gan waith adfer a wneir ar dir neu gan weithrediadau archwiliadol, gall personau penodedig adennill digollediad gan berchennog y tir a gyflawnodd y gweithrediadau neu gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y gweithrediadau neu’r profion archwiliadol. Mae unrhyw anghydfod ynghylch digolledu **i’w ddyfarnu gan y Llys.** |
| S.48 – lle mae tir wedi’i ddifrodi neu unrhyw eiddo arall ei ddifrodi, ei symud neu ei waredu (i) gan berchennog neu gan yr Awdurdod yn ymgymryd â gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol ar dir, neu (ii) gan yr Awdurdod yn ymchwilio i weld a oes angen gweithrediadau ar dir, gall y personau penodedig hawlio digollediad gan y perchennog neu’r Awdurdod fel y bo’n berthnasol. Mae | Adran 20 – gweler uchod. |

| | |
|---|---|
| unrhyw anghydfod ynghylch digolledu **i'w ddyfarnu gan y Llys.** | |

5.2 Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / tribiwnlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

☒ Na fyddent
☐ Byddent (rhowch fanylion)

### Hawliau Apelio

2.2. A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio, apelio ymlaen neu lwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, pwy fydd yn mynd i'r afael â'r rhain (h.y. a fyddant yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi neu gan Dribiwnlysoedd Cymru ac a fydd yr apelau yn addas ar gyfer gwrandawiad rhithwir)?

☐ Na fyddent
☒ Byddent (rhowch fanylion)

Mae'r hawliau apelio yr ydym yn eu cynnig yn debyg i'r rhai sydd yn Neddf 1969, felly nid yw'r rhan fwyaf o'r apelau yn 'newydd' i'r system. Bydd y rhan fwyaf o apelau yn cael eu dyfarnu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru yn hytrach na gan y Llysoedd fel yn Neddf 1969.

Fel y soniwyd uchod, mae nifer o hawliau apelio yn y Bil sy'n debyg iawn i'r hawliau apelio cyfatebol yn Neddf 1969 ac yn seiliedig arnynt. Fodd bynnag, bydd rhai apelau o dan y Bil yn derbyn gwrandawiad gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Llys. Isod mae tabl sy'n dangos yr hawliau apelio o dan y Bil o'u cymharu â'r hawliau apelio cyfatebol o dan Ddeddf 1969. Mae'r dyfarnwr apelau ar gyfer y ddwy mewn llythrennau bras.

| Y Bil | Deddf 1969 |
|---|---|
| S.36 – hawl perchennog/partïon â buddiant i apelio yn erbyn hysbysiad sy'n gofyn am weithrediadau ar dir. **Gweinidogion Cymru** | Adran 15 – Apelau yn erbyn hysbysiadau o dan adran 14 sy'n gofyn am weithrediadau ar dir. **Y Llys** |
| | |
| S.50 – gall cyfrannwr sy'n derbyn archeb gan berchennog tir i gyfrannu tuag at waith wneud cais i'r Llys am orchymyn sy'n amrywio'r archeb. **Y Llys** | Adran 22 – Gall cyfrannwr apelio yn erbyn archeb i gyfrannu tuag at gostau gwaith a wneir o dan adran 21 gan berchennog. **Y Llys** |
| | |
| S.52 – gall cyfrannwr sy'n derbyn archeb gan yr Awdurdod i gyfrannu tuag at waith wneud | Adran 24 – Gall perchennog/cyfrannwr apelio yn erbyn archeb o dan adran 23 gan |

| | |
|---|---|
| cais i'r Llys am orchymyn sy'n dileu neu'n amrywio'r archeb. **Y Llys** | awdurdod lleol sy'n ceisio adennill treuliau. **Y Llys** |

Rydym yn disgwyl y bydd apelau o'r fath yn addas ar gyfer gwrandawiad rhithwir.

Eto, yn ôl tystiolaeth anecdotaidd gan awdurdodau lleol, nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw apelau i'r llys a wnaed o dan Ddeddf 1969.

O dan y Bil, bydd apelau mewn perthynas â hysbysiad sy'n gofyn am weithrediadau ar dir yn derbyn gwrandawiad gan Weinidogion Cymru (mae'r hawl apelio cyfatebol o dan Ddeddf 1969 i'r Llys). Mae hyn yn golygu mewn egwyddor y dylai fod llai o apelau y gellid eu gwneud i'r Llys.

Mewn perthynas â'r ddwy hawl i apelio sy'n weddill, o ystyried y bydd y gyfundrefn newydd yn fwy rhagweithiol, rydym yn amcangyfrif **y bydd nifer yr apelau, ar gyfer pob un o'r hawliau apelio, yn yr amrediad 0-5.**

Pan fydd Gweinidogion Cymru yn dyfarnu, bydd eu penderfyniadau yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol. Nid yw'n bosibl rhagweld sawl adolygiad barnwrol o'r fath bydd eu hangen, ond rhagwelir mai isel iawn bydd y rhif – llai nag 1 y flwyddyn.

Yn ogystal â hawliau apelio, mae achosion eraill lle gellir gwneud ceisiadau i'r Llys. Mae cymhariaeth o'r ceisiadau y gellir eu gwneud o dan y Bil o'u cymharu â'r rhai y gellir eu gwneud o dan Ddeddf 1969 wedi'i nodi ym mharagraff 5.1 uchod.

2.3. Pwy fydd yn clywed apelau sy'n deillio o unrhyw gamau gorfodi a wneir o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig?

- ☐ Tribiwnlys Haen Gyntaf y DU
- ☐ Uwch Dribiwnlys y DU
- ☐ Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru
- ☐ Tribiwnlys Apelau Cymru
- ☐ Llys Ynadon
- ☐ Llys y Goron
- ☒ Arall (rhowch fanylion)

Ystyr "Llys" fel y'i diffinnir yn y Bil yw'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol.

2.4. A ydych yn disgwyl ehangu unrhyw awdurdodaeth bresennol neu sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os felly, a drafodwyd hyn gydag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

Ni fydd yn ofynnol i ni greu Tribiwnlys newydd at ddibenion ein Bil.

2.5. Pa gostau ydych yn rhagweld bydd yn daladwy ac a oes gan eich is-adran bolisi'r cyllid angenrheidiol ar waith i sefydlu'r gyfundrefn orfodi arfaethedig a'r mecanweithiau apelio o fewn strwythur Tribiwnlys Cymru?

> Amh.

2.6. Pryd ydych yn rhagweld y bydd eich deddfwriaeth arfaethedig yn cael ei gweithredu a'r gwrandawiadau apelau cyntaf eu clywed?

> Rydym yn rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn dechrau ar 1 Ebrill 2027. Bydd yr Awdurdod yn cymryd peth amser i fod yn gwbl weithredol a bydd yn cymryd peth amser cyn i unrhyw apelau ddechrau cael eu gwneud yn erbyn hysbysiadau ac ati a gyflwynir gan yr Awdurdod.

**Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod**

2.7. I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

> Rhagwelir y bydd gan yr Awdurdod berthynas gref ag ystod o randdeiliaid, ond yn enwedig gyda pherchnogion tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Bydd hyn yn rhan benodol bwysig o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r gobaith yw y bydd perthnasoedd agosach / cryfach yn golygu y gellir trafod unrhyw feysydd lle mae anghytuno ac, mewn rhai achosion, eu datrys cyn bod angen sylwadau ysgrifenedig, cyflwyno hysbysiadau a/neu gyflwyno apelau ffurfiol.

**Erlyn a Gorfodi**

2.8. Os ydych yn cynnig creu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na, nodwch pwy fydd yn erlyn.

> Rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn dwyn y mwyafrif o unrhyw erlyniadau a ddygir o dan y Bil. Fodd bynnag, gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus hefyd ddwyn erlyniadau. Gellir dwyn erlyniadau preifat gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
>
> Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf 1969 (adran 27(1)), ar wahân i'r ffaith yr oedd awdurdodau lleol (yn hytrach na'r Awdurdod) wedi'u grymuso gan y Ddeddf honno i ddwyn erlyniadau.

2.9. A oes angen systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol ar gyfer y cynnig? Os oes, pwy ydych yn disgwyl y bydd yn eu gorfodi?

> Oes, bydd cosbau troseddol yn cael eu gorfodi gan y Llys.

**Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Cosbau a Dedfrydu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi**

2.10. Ydych chi'n rhagweld y bydd rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

| |
|---|
| Amh. |

2.11. A fydd angen diwygio'r canllawiau dedfrydu a / neu gosbau ar gyfer y cynigion?

| |
|---|
| Amh. |

## 3. Cymorth Cyfreithiol a Ffioedd Llys

3.1. Pa dystiolaeth sydd y bydd modd i'r unigolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt sicrhau a fforddio:

a) cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawiad teg

b) ffioedd llys cysylltiedig

Pa gostau cyfreithiol a allai fod yn daladwy gan bob parti mewn achos cyffredin, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddieuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran o'r costau hynny?

> Ar ôl ystyried canllawiau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar Fuddiannau Cyfiawnder a'r meini prawf Widgery fel y nodir yn adran 17(2) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, mae'n annhebygol y byddai Cymorth Cyfreithiol troseddol ar gael ar gyfer sylwadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r troseddau o dan y Bil. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos.
>
> Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan ddarpariaethau Deddf 1969 sydd fwy neu lai yn gyfatebol, bydd angen i unigolion sicrhau a thalu am eu cyngor cyfreithiol eu hunain, os oes angen. Yn dilyn yr achos, barnwr fyddai'n dyfarnu costau. Nid yw amcangyfrifon o gymhlethdod, hyd a chostau achosion yn bosibl oherwydd y ddealltwriaeth bresennol na fu unrhyw erlyniadau na gorfodi cyfatebol mewn perthynas â'r materion o fewn cwmpas ein Bil.
>
> O ran Hawliadau Sifil, nid yw'r mathau o geisiadau y gellid eu gwneud o dan y Bil yn debygol o fod ar y rhestr yn Atodlen 1 i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

3.2. Pan fydd eich cynnig ar waith, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

- [x] Troseddol
- [ ] Sifil (gan gynnwys Teuluoedd)
- [ ] Lloches
- [ ] Dim cymorth cyfreithiol ar gael (darparwch dystiolaeth ategol)

> Fel y nodir uchod, mae'n annhebygol y bydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer troseddau o dan y Ddeddf nac ar gyfer unrhyw achos sifil.

3.3. Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

> Amh.

## 4. Y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai

**Effaith ar Wasanaethau Carchardai Ei Fawrhydi**

4.1. A fydd y cynigion yn newid nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os felly, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hwn o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

| |
|---|
| Na fydd |

4.2. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhowch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig ar y gwasanaethau prawf.

| |
|---|
| Nac ydy |

## 5. Nodi'r Prif Effeithiau ar y System Gyfiawnder

### 5.1. Niferoedd a Chostau neu Arbedion (gallwch ymestyn yn ôl yr angen):-

DS ym mhob achos, dylech dybio ffigur blynyddol cyfartalog neu nodi'n glir os ydych yn ystyried cyfnod amser gwahanol. Os yw'n bosibl y byddai gwahaniaeth mawr rhwng y nifer cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd cyntaf, nodwch wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau isod.

| **Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.** | **Niferoedd**<br><br>(rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Math** (e.e. lle yn y carchar, gwrandawiad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Rhagor o Wybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Troseddau a Sancsiynau | | | |
| | | | |
| | | | |
| Cosbau Sifil | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| **Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.** | **Niferoedd**<br><br>(rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Math** (e.e. lle yn y carchar, gwrandawiad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Rhagor o Wybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi | | | |
| | | | |
| Tribiwnlysoedd Cymru | | | |
| | | | |
| | | | |
| ~~Cymorth Cyfreithiol~~ | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**5.2. Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai (gallwch ymestyn yn ôl yr angen, llenwch yr isod dim ond os nad yw'r gosb uchaf yn ddirwy): Amh.**

| **Trosedd** | **Cosb Uchaf** | **Nifer yr erlyniadau y flwyddyn** (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Y gyfran debygol fydd yn cael dedfryd o garchar yn syth** | **Hyd cyfartalog tebygol y ddedfryd o garchar a roddir** |
|---|---|---|---|---|
| ____ | ____ | ____ | ____ | ____ |
| ____ | ____ | ____ | ____ | ____ |
| Nodiadau: | | | | |

**Cofiwch fod rhaid i unrhyw gostau neu arbedion a nodwyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r system gyfiawnder / gwaith ychwanegol gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol o'ch deddfwriaeth.**